# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 15 Tachwedd 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

Nicola Mills, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Nichola Salter, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Charlotte Priddy, AHDB

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Ruth Johnston, CNC

Katy Simmons, CNC

Kate Snow, United Utilities

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Geoff Sampson, WRAP (Eitem 4 yn unig)

Kathryn Brown, Llywodraeth Cymru (Eitem 4 yn unig)

Andy Rees, Llywodraeth Cymru (Eitem 4 yn unig)

Michelle Griffiths, CNC (Eitem 4 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

Fraser McAuley, CLA

Sarah Hetherington, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

   - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

3. Croesawyd Nicola Mills i'r grŵp gan Zoe. Mae Nicola yn Uwch Swyddog Llaeth i CNC ac mae wedi ymuno â'r grŵp fel cyswllt uniongyrchol ar gyfer y Prosiect Llaeth.

## Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a Chamau Gweithredu

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Medi 2021.

6. Soniodd Zoe fod y cyflwyniad gan Gail Davies-Walsh yn llawn gwybodaeth a'i fod wedi cael derbyniad da, gan fod llawer o bobl wedi gofyn am ei manylion cyswllt i gadw mewn cysylltiad a gweithio ar bethau. Awgrymodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru y byddai cael dealltwriaeth glir o ddeilliannau'r Is-grŵp yn helpu i amlygu pa sefydliadau sy'n cyfrannu at bob un o'r deilliannau. Gofynnodd Chris a oes rhestr o

ddeilliannau i'r grŵp. Soniodd Bob Vaughan, CNC fod Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi'i lunio ar gyfer y Gweinidog ac efallai fod angen ailedrych arno i ddatgan beth rydyn ni wedi'i wneud ers hynny ac i ble rydyn ni'n mynd. Dywedodd Chris ei fod yn awgrymu tasg symlach o adolygu'r adroddiad i nodi deilliannau allweddol a mapio pa sefydliadau sy'n cyfrannu at y rhain. Dywedodd Marc fod rhestr o flaenoriaethau wedi'i llunio y llynedd, a gofynnwyd i'r grŵp pa rai y dylid eu datblygu. Efallai y dylid defnyddio'r rhestr hon yn y dyfodol i nodi pwy sy'n cyflawni beth.

***PG 01 Tachwedd: CNC i ddosbarthu'r rhestr o argymhellion â blaenoriaeth i'r grŵp.***

***PG 02 Tachwedd: Y grŵp i adolygu'r rhestr o argymhellion â blaenoriaeth a nodi pa rai y mae eu sefydliad yn gweithio tuag atynt a nodi pa rai sy'n gysylltiedig â gwaith sefydliadau eraill (sefydliadau nad ydynt yn is-grwpiau).***

7. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, a yw'r llythyr a awgrymwyd at y Gweinidog ynghylch materion a phryderon ynghylch y ddogfen Cwestiynau Cyffredin i ffermwyr tenant wedi mynd rhagddo. Dywedodd Zoe nad yw hynny wedi digwydd, gan ei fod yn llythyr anodd i'w drefnu o fewn CNC ac ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o senarios gan aelodau. Dywedodd Bob fod hwn yn fater pwysig, ond bod tystiolaeth yn allweddol ar gyfer y llythyr hwn. Gofynnodd Bob i'r aelodau ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r llythyr. Awgrymodd Dennis y gallai Daliadau'r Cyngor Sir helpu.

8. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach ynghylch cofnodion cyfarfod mis Medi.

9. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin fel bod y grŵp yn gallu gweld y camau nad ydynt wedi'u gweithredu.

## Eitem 3 Materion yn Codi

10. Soniodd Zoe fod llythyr gan Tim Bailey, Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dod i law yn ymwneud â phryderon am rai o'r pwyntiau a drafodwyd yn ystod cyfarfod Mehefin 2021 pan gafwyd cyflwyniad i'r grŵp gan gynrychiolydd o'r Tractor Coch.

    Dywedodd Zoe na fydd cofnodion cyfarfod mis Mehefin yn cael eu diwygio gan eu bod yn gofnod cywir o'r hyn a gafodd ei ddweud ar y pryd. Fodd bynnag, bydd datganiad Tim yn amlinellu'r pryderon a'r sylwadau yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwn.

    - **Llythyr gan Tim Bailey, Asiantaeth yr Amgylchedd:**

    Derbyniwyd llythyr gan Tim Bailey, Asiantaeth yr Amgylchedd ar 12 Hydref 2021, sy'n darllen:

    '*Fel y gwyddoch, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael ei chwestiynu gan elfennau allanol ynghylch sylwadau gan Tractor Coch yng nghofnodion cyfarfod diweddar o Fforwm Rheoli Tir Cymru.*

    *Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru – Cofnodion cyfarfod Mehefin 2021*

    *Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn anghytuno'n llwyr â'r fersiwn o ddigwyddiadau sydd wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd.*

*Er gwybodaeth, o ran cefndir –*

*Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd, ar unrhyw adeg, wedi cyfarwyddo Tractor Coch i roi'r gorau i wirio gofynion storio slyri nac wedi dweud wrth Tractor Coch na allai Asiantaeth yr Amgylchedd ddelio â nifer yr ymholiadau roeddem yn eu derbyn. Mae ein Swyddogion yr Amgylchedd yn arbenigwyr ar helpu ffermwyr i wella cydymffurfiaeth, gan gynnwys darpariaethau storio slyri. Nid yw sylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd gyda Tractor Coch wedi'u hadrodd yn gywir. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cydnabod na all ffermwyr fynd i'r afael â chapasiti storio slyri annigonol dros nos, a chyda chaniatâd cynllunio a rhwystrau eraill, y gall gymryd rhwng blwyddyn a dwy flynedd, ac weithiau'n hirach, i'w cwblhau. Gofynnwyd i Tractor Coch bennu gofyniad i ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio ddarparu cynllun gweithredu o ansawdd digonol o fewn 28 diwrnod i archwiliad. At hynny, i'r ffermwyr hynny gysylltu â ni gyda'u cynllun cyn gynted ag y bo modd i sicrhau bod eu cyfrifiadau'n gywir a bod yr hyn a oedd yn cael ei gynnig yn briodol ar gyfer y safle. Byddem wedyn yn disgwyl i ffermwyr roi eu cynllun ar waith a sicrhau cydymffurfiaeth cyn gynted â phosibl a chymryd rhagofalon rhesymol yn y cyfamser i atal llygredd o ganlyniad i ddiffyg capasiti storio slyri digonol. Er mwyn helpu i sicrhau bod cyfrifiad cyffredin ar gyfer storio slyri o ran asesu cydymffurfiaeth, ymgysylltwyd ag AHDB i addasu eu dewin slyri i gynnwys glawiad uwch na'r cyfartaledd (1 mewn 5 mlynedd). Gwnaed y ddau beth hyn. Gwnaethom hefyd ddarparu i Tractor Coch gyfarwyddyd i aseswyr a ffermwyr o ran darparu storio sy'n cydymffurfio, cyfarwydd a fu'n destun ymgynghori gyda CNC, ac sydd wedi'i rannu â CNC. Nid yw'r canllawiau hynny wedi'u haddasu ers eu cyhoeddi.*

*Byddem yn croesawu codi a chofnodi gwrthbrofiad Asiantaeth yr Amgylchedd yn y cyfarfod nesaf.'*

Croesawodd Zoe gwestiynau neu sylwadau gan y grŵp.

Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod hyn yn awgrymu nad yw'r cyfathrebu rhwng Tractor Coch ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn wych. Dywedodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin ei bod yn galonogol bod cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu darllen gan bobl eraill o'r tu allan i'r cyfarfod.

Awgrymodd Bob fod CNC yn cysylltu â Tractor Coch ar ran y grŵp i egluro'n uniongyrchol iddynt fod hyn wedi'i godi fel eu bod yn cydnabod bod diffyg cyfathrebu neu gamddealltwriaeth ac y gallant unioni hyn.

***PG 03 Tachwedd: CNC i gysylltu â Tractor Coch ar ran y grŵp a chynnig eglurhad o'r llythyr gan Asiantaeth yr Amgylchedd.***

***PG 04 Tachwedd: CNC i ymateb i Tim Bailey, Asiantaeth yr Amgylchedd i ddiolch iddo am gysylltu ac i gadarnhau bod y llythyr wedi'i gyflwyno yn ystod y cyfarfod hwn.***

11. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill gan y grŵp.

## Eitem 4 Cyflwyniad: Rheoliadau Ailgylchu arfaethedig ar gyfer safleoedd annomestig

12. Croesawodd Zoe Kathryn Brown ac Andy Rees, Llywodraeth Cymru a Geoff Sampson, WRAP i'r cyfarfod i roi cyflwyniadau i'r grŵp ynghylch datblygu'r Rheoliadau Ailgylchu Safleoedd Annomestig arfaethedig.

13. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Pam yr angen am y ddeddfwriaeth hon?
- Y cefndir a'r sefyllfa ar hyn o bryd – gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori
- Trafodaeth anffurfiol ar faterion cyffredinol a materion sy'n benodol i'r sector – gan gynnwys gwirio cydymffurfiaeth a lefel y gorfodi a chosbau
- Adborth rhanddeiliaid ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y Rheoliadau/Cod Ymarfer
- Trafodaeth anffurfiol ar feysydd y bydd angen arweiniad/cyngor arnynt o ran arferion gorau

14. Nododd Zoe i'r cyflwyniad nodi bod 'aelwydydd' i gyfrif am 65% a gofynnodd a oedd ffigur ar gyfer annomestig. Soniodd Andy ei fod yn amrywio rhwng gwastraff diwydiannol (tua 60%) a gwastraff masnachol (tua 64%) ond bod llawer mwy o wastraff ailgylchadwy mewn bagiau du o wastraff masnachol y dylid ei ailgylchu yn hytrach na'i anfon i safleoedd tirlenwi. Gofynnodd Zoe i ba gategori y mae amaethyddiaeth yn perthyn, a chadarnhaodd Andy ei fod yn dod o dan wastraff diwydiannol.

15. Dywedodd Chris ei fod yn cymeradwyo'r fenter ond gofynnodd a oes amcangyfrif ar gyfer faint o adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar CNC i orfodi hyn yn briodol. Dywedodd Chris hefyd fod yna argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth ond mae'r broses o gael pethau i symud yn araf iawn, felly os ydym am ymateb i'r heriau mae'n rhaid cael ffordd gyflymach o gyflwyno mesurau newydd. Dywedodd Andy eu bod yn ymwybodol na fydd y rheoliadau'n gweithio heb orfodaeth ddigonol. Roedd y rheoliadau hyn i fod i gael eu cyflwyno ar 1 Hydref 2021, ond gohiriwyd hyn oherwydd Covid a Brexit, ond maent bellach wedi ymrwymo i'r amserlen.

16. Esboniodd Bob fod y grŵp hwn wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol ac mae wedi cymryd camau breision i fwrw ymlaen â materion. Gofynnodd Bob sut y gellir dod â'r ddau beth hyn i fwcwl. Dywedodd Andy y gellir archwilio cyfleoedd posibl i drosi 'gwastraff' yn adnodd. Soniodd Andy fod y cyfleoedd yn cynnwys cyflenwi cnydau dros ben i elusennau neu gymunedau lleol.

17. Gofynnodd Sarah Jones, Dŵr Cymru a oedd gan Andy gyswllt yn adran wastraff Dŵr Cymru, ac os nad oedd, y byddai'n fodlon darparu cyswllt. Dywedodd Andy eu bod wedi siarad â chydweithwyr Hylendid Bwyd CLILC a fydd yn mynd o gwmpas ac yn archwilio i sicrhau nad yw gwastraff bwyd wedi'i waredu i garthffos. Gall sgyrsiau am elifiant masnachol fod yn ddiddorol. Dywedodd Sarah y byddai cydweithwyr eisiau gwybod am gyflenwad helaeth o laeth yn mynd i waith trin.

***PG 05 Tachwedd: Bronwen Martin, CNC i drosglwyddo manylion cyswllt Sarah Jones, Dŵr Cymru i Andy Rees, Llywodraeth Cymru.***

Dywedodd Sarah fod ei thîm wedi gwneud llawer o waith ynghylch plaladdwyr diangen a nododd nad yw'n bosibl ailgylchu pob gwastraff fferm oherwydd ei fod, yn yr achos hwn, yn beryglus. Tynnodd Sarah sylw at y ffaith ei bod yn aml yn anodd iawn i bobl gael gafael ar gludwyr gwastraff priodol a bod y gwasanaeth hwn weithiau'n anghymesur o ddrud. Gofynnodd Sarah a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried 'cynllun prynu'n ôl' ar gyfer 'gwastraff' gweddilliol. Dywedodd Andy nad oedd hynny wedi digwydd eto ond y byddai'n digwydd, a bod hynny wedi'i gysylltu â chanllawiau arfaethedig penodol i sector. Dywedodd Sarah fod Dŵr Cymru yn hapus i rannu gwybodaeth a gwersi y maent wedi'u dysgu.

18. Dywedodd Michelle fod y Rheoliadau Ailgylchu Annomestig hyn yn ymwneud â ffrydiau gwastraff penodol lle gallant gynyddu'r gyfradd cipio ac ailgylchu a thynnodd sylw at y ffaith bod y sgwrs hon wedi dangos bod mwy o wastraff ar ffermydd y mae angen i'r sector ei ystyried, yn enwedig o ran heriau a phroblemau. Dywedodd Michelle wrth y grŵp fod gan Gymru economi gylchol a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ac mae gan CNC bobl ymroddedig sy'n edrych ar yr heriau hyn ac yn rhoi cymorth ynghylch cyfleoedd. Soniodd Michelle, os oes heriau a chyfleoedd pellach ynghylch ffrydiau gwastraff nad ydynt yn dod o dan y rheoliadau ailgylchu annomestig, y dylai aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gysylltu â Thîm Polisi Gwastraff CNC i weld pa gymorth y gellir ei gynnig.

19. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru am blastigau ar y fferm a sut, yn y gorffennol, mae ffermwyr wedi profi cyfnodau estynedig lle nad ydynt wedi gallu allforio eu plastigau fferm a gofynnodd beth yw'r sefyllfa o ran cyflenwad/galw ar hyn o bryd. Dywedodd Andy ei fod wedi bod yn ymwneud â materion plastig fferm ers blynyddoedd lawer a'i fod wedi cysylltu â diwydiant polythen Prydain sy'n cynnig ateb i ailgylchu plastig fferm. Soniodd Andy fod ffatri 70,000 tunnell y flwyddyn yn ne Cymru sy'n gallu rheoli plastig fferm ond ar hyn o bryd mae llawer o'r capasiti hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan gynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr Iwerddon. Yr her yw bod cost i gynnal gwasanaeth ailgylchu plastigau fferm ond bod galw (e.e. dodrefn wedi'u gwneud o blastig fferm wedi'i ailgylchu).

Eglurodd Zoe nad yw plastigau'n ganolbwynt craidd i'r grŵp ond mae materion yn ymwneud â phlastigau fferm yn bryder, yn enwedig o ran yr anhawster o drefnu casgliadau a'r gost sy'n gysylltiedig â hyn.

20. Gofynnodd Zoe i Andy a ellid rhannu'r cyflwyniad gyda'r grŵp. Cadarnhaodd Andy ei fod yn hapus i anfon copi i'w rannu.

***PG 06 Tachwedd: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu'r cyflwyniad ar y Rheoliadau Ailgylchu Adeiladau Annomestig arfaethedig.***

## Eitem 5 Diweddariad y Prosiect Llaeth

21. Ymunodd Nicola Mills (Uwch Swyddog Llaeth, CNC) â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Llaeth.

22. Rhoddodd Nicola drosolwg byr o'r Prosiect Llaeth:

- Ers dechrau'r prosiect yn 2018, rydym wedi ymweld â 824 o ffermydd i gynnal ymweliad Llaeth.

- Ers mis Gorffennaf 2020, rydym wedi ffonio 309 o ffermydd i fesur cynnydd.
- Rydym wedi cael gwybod am 242 o ofynion sydd wedi'u cwblhau.
- Ers 21 Mawrth, rydym wedi ailymweld â 131 o ffermydd i weld gwelliannau a chynnydd.
- Targed y Swyddog Llaeth yw ail-ymweld â dwy fferm bob wythnos a chwblhau un ymweliad newydd bob wythnos.
- Targed yr Uwch Swyddog Llaeth yw ymweld â'r ffermydd mwyaf problemus a gweithio'n agos gyda Thimau'r Amgylchedd, cefnogi a mentora ymweliadau'r Swyddog Llaeth pan fo angen, ymweld â ffermydd newydd ac ail-ymweld.
- Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu a'i bostio o fewn terfyn amser o 4 wythnos.

23. Wrth symud ymlaen, dywedodd Nicola mai'r bwriad yw cyflawni'r canlynol:

- Parhau i ailymweld â chynifer o ffermydd ag sy'n bosibl er mwyn bwrw ymlaen â gwelliannau a darparu cymorth, cyngor ac arweiniad.
- Cwblhau ymweliadau newydd cyn gynted â phosibl er mwyn cadw'r momentwm a dangos i ffermwyr ein bod yn gweithredu'n rhagweithiol.
- Mae angen i ni ymweld â 700 o ffermydd llaeth eraill i gwblhau ymweliad cychwynnol a llunio Adroddiad Asesu Ymweliad Llaeth.
- Recriwtio i lenwi swyddi gwag yn y prosiect, dau Swyddog Llaeth ar gyfer y de, dau Swyddog Llaeth ar gyfer y canolbarth, un Swyddog Llaeth ar gyfer y gogledd a Chydlynydd Arweiniol newydd.
- Gweithio'n agos gyda ffermwyr i roi cyngor ar CoAPR a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt.
- Hyrwyddo'r Prosiect Llaeth yn weithredol gyda phwyslais ar y canlyniad gwych hyd yma, llawer o waith da yn cael ei wneud ar ffermydd nad ydym yn ymwybodol ohono.

24. Rhannodd Nicola gyfres o graffiau a oedd yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y ffermwyr ar ddiwrnod yr ymweliadau cychwynnol. Roedd y graffiau'n amlinellu capasiti storio slyri, llwytho nitrogen da byw, llwytho ffosfforws, capasiti storio ac oedran unedau storio a da byw.

25. Rhoddodd Nicola grynodeb o rywfaint o adborth y mae'r Swyddogion Llaeth wedi'i gael gan ffermwyr, gan gynnwys:

- Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol – rhywfaint o ddryswch o hyd o ran cyflwyno'r rheoliadau newydd yn raddol.
- Cyfnodau gwaharddedig – gordaenu cyn ac ar ôl y cyfnodau hyn – cwestiynau am beth all CNC ei wneud a sut y caiff ei orfodi?

- Mae rhai ffermwyr yn credu y bydd y rheoliadau newydd yn cael eu dirymu ar ôl Adolygiad Barnwrol.

- Gwrthod grantiau i rai ffermwyr oherwydd prinder arian, nifer fawr o geisiadau a pheidio â tharo pwyntiau.

- Arian – y brif broblem, yn enwedig o ran ffermydd bach

- Mae nifer o ffermwyr yn dewis gwerthu ffermydd gan nad yw'r busnes yn hyfyw yn ariannol mwyach

- Contractwyr yn derbyn gwaith ymhell ymlaen llaw ac yn achosi oedi wrth gwblhau gwelliannau a chynnydd mewn prisiau.

- Ffermwyr yn ddig wedi i gladdfeydd silwair gael eu cwmpasu gan Drawsgydymffurfio, gan hefyd newid cyfeiriad y prosiect (dim cyngor ac arweiniad mwyach)

- Prisiau gwrtaith wedi cynyddu'n sylweddol – angen mwy o gymorth ar ddefnyddio slyri yn lle hynny.

26. Soniodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, mai Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu Grantiau Busnes Fferm a'r Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy, nid Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cymorthfeydd wedi'u hariannu'n llawn i ffermwyr a gallant gael awr am ddim dros y ffôn gydag ymgynghorydd amgylcheddol i ofyn am gyngor. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig clinigau ar ffermydd (wedi'u hariannu'n llawn) lle mae ffermwyr yn cael ymweliad gan ymgynghorydd amgylcheddol.

27. Diolchodd Creighton i Nicola am dynnu sylw at rai enghreifftiau o broblemau, pryderon a chamddeall ar ran ffermwyr, gan ei bod yn dda o beth ein bod ni'n gwerthfawrogi'r anawsterau hynny. Gofynnodd Creighton beth ddylai'r cyflenwad staff llawn fod ar gyfer y Prosiect Llaeth. Dywedodd Nicola y dylid cael cyfanswm o 13 ar gyfer y prosiect, sy'n cynnwys 12 o Swyddogion Llaeth ac Uwch Swyddogion Llaeth ac un Cydlynydd Arweiniol.

28. Dywedodd Zoe fod prisiau gwrtaith wedi cynyddu a soniodd bod bwlch dealltwriaeth lle nad yw ffermwyr yn sylweddoli bod y maetholion sydd eu hangen arnynt weithiau eisoes ganddynt ar eu fferm. Gofynnodd Zoe a oes rhywbeth arall y gall y grŵp ei wneud i sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu.

29. Gofynnodd Chris beth yw targedau'r prosiect. Dywedodd Nicola fod ganddynt dargedau ar gyfer nifer yr ymweliadau y mae'r swyddogion yn ymgymryd â nhw. Dywedodd Chris y byddai'n helpu pe bai gan y prosiect ganlyniadau clir; gweithgaredd yw ymweliadau, nid canlyniad. Dywedodd Nicola fod y prosiect i fod i ddod i ben ym mis Mawrth ar hyn o bryd, ond bod hynny'n sicr yn rhywbeth i'w ystyried os bydd y prosiect yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Dywedodd Chris fod y wybodaeth y mae Nicola wedi'i chyflwyno yn amlygu pwysigrwydd y Prosiect Llaeth.

30. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod y ffigurau a gyflwynwyd yn ddadlennol iawn ond yn anffodus nad ydynt yn dweud dim byd newydd. Awgrymodd

Bernard, os na chaiff y cyfnodau ariannu a phontio eu newid, nad yw'r sector yn mynd i ddatblygu fel y mae angen iddo wneud.

31. Dywedodd Bob fod y prosiect hwn wedi dechrau dysgu mwy am y ffermydd llaeth yng Nghymru a'i fod wedi esblygu a datblygu dros amser.

32. Dywedodd Creighton ei fod wedi codi mater cyllid ar gyfer y prosiect hwn sawl gwaith. Nid yw cyllid dros dro neu gyllid blynyddol yn system sy'n gynaliadwy ac ni fydd yn cynhyrchu'r canlyniad a ddylai. Soniodd Creighton y bydd unrhyw gymorth sydd ei angen ar gyfer y Prosiect Llaeth yn cael ei gynnig gan lawer yn y grŵp hwn.

33. Cytunodd Dennis Matheson, TFA â sylwadau Creighton ynghylch cyllid ar gyfer y Prosiect Llaeth. Gofynnodd Dennis a oes unrhyw ffigurau ynghylch ffermydd llaeth tenant yr ymwelwyd â nhw yn ystod y prosiect. Dywedodd Nicola nad oedd ganddi ffigurau penodol, ond eu bod wedi ymweld â ffermydd tenant yn ystod y prosiect.

34. Soniodd Chris fod y data sylfaenol yn bwysig iawn er mwyn sicrhau cyllid wrth symud ymlaen. Mae hwn yn brosiect hanfodol a bydd angen arweiniad a chefnogaeth i ffermwyr drwy'r cyfnod heriol sydd i ddod.

35. Trafododd y grŵp ffyrdd posibl y gallai'r grŵp helpu i gefnogi'r Prosiect Llaeth wrth symud ymlaen.

## Eitem 6 Trosolwg o ymweliad fferm wyneb yn wyneb

36. Ar ddydd Llun 18 Hydref 2021, ymwelodd rhai aelodau o'r grŵp â Graig Olway, ger Brynbuga. Dosbarthwyd crynodeb o daith a sgwrs fferm Graig Olway i'r grŵp cyn y cyfarfod.

37. Trafododd y cylch rai o'r pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymweliad â'r fferm.

## Eitem 7 Trafodaeth Contractwyr Amaethyddol

38. Soniodd Zoe fod hwn yn bwnc a drafodwyd gan y grŵp beth amser yn ôl a'i bod yn credu y gellid ailedrych arno er mwyn gwneud rhyw gynnydd. Gofynnodd Zoe am farn y grŵp.

39. Soniodd Nichola Salter, CNC iddi fod yn gweithio gyda Lantra ar storio a defnydd diogel o dail a slyri organig sy'n cael ei ddatblygu ganddynt ar gyfer Cyswllt Ffermio. Bydd hyn yn cael ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno ar 6 Rhagfyr, wedi'i anelu at gontractwyr. Dywedodd Nichola ei bod wedi gofyn i Lantra beidio â chanolbwyntio ar slyri yn unig, felly bydd yn bodloni'r diffiniad 'tail organig' yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

40. Dywedodd Creighton y byddai'n croesawu trafodaeth bellach ar gontractwyr amaethyddol. Bydd yn rhaid creu mapiau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ac efallai y dylid cynnwys cyfathrebu rhwng ffermwyr a chontractwyr fel nad oes bwlch. Dylid rhannu unrhyw fapiau risg gyda'r contractwr a'u llofnodi i ddangos bod y wybodaeth hon wedi'i chyfleu a bod pawb yn ymwybodol o ble mae'r risg.

41. Soniodd Ed fod United Utilities wedi sicrhau cyllid i gynhyrchu rhai taflenni canllaw a'r pynciau y maent yn ymdrin â hwy yw Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, tomenni maes a storfeydd tail, mapiau risg a thaenu tail. Bydd y wybodaeth hon yn berthnasol i ffermwyr a chontractwyr. Bydd y taflenni hyn yn cael eu prawfddarllen gan CNC cyn iddynt gael eu cymeradwyo cyn eu cynhyrchu'n derfynol.

***PG 07 Tachwedd: Ed Davies, CNC i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â chontractwyr amaethyddol er mwyn i'r grŵp ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.***

## Eitem 8 Unrhyw Fater Arall

42. Soniodd Zoe fod cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 13 Rhagfyr 2021. Bydd y dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn 2022 yn cael eu dosbarthu'n fuan.

43. Soniodd Einir fod gan Cyswllt Ffermio rywfaint o glinigau fferm ar seilwaith, profi tail, profi pridd a phrofion ansawdd y prif gyflenwad dŵr.

***PG 08 Tachwedd: Einir Williams, Cyswllt Ffermio i anfon y ddolen i glinigau fferm arfaethedig Cyswllt Ffermio at Bronwen Martin, CNC, fel y gellir eu dosbarthu i'r grŵp.***

44. Dywedodd Ruth Johnston, CNC, fod Ofwat yn adolygu'r prisiau ar gyfer biliau cwsmeriaid bob pum mlynedd. Rydym ar ddechrau adolygiad prisiau 2024 a fydd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024 pan mae Ofwat yn pennu'r gwariant y gall cwmnïau dŵr ei godi drwy filiau cwsmeriaid. Rhan o'r broses honno yw bod y rheolyddion amgylcheddol yn cynhyrchu eu rhaglen amgylcheddol genedlaethol. Mae'r rhaglen honno'n nodi gwaith y byddem yn disgwyl ei ariannu i fodloni gofynion deddfwriaethol a gofynion eraill fel rhan o'r refeniw a godir o filiau cwsmeriaid. Mae'r refeniw hwnnw sy'n cael ei godi yn cynnwys costau llinell sylfaen a chynnal a chadw, ond hefyd taliadau chwyddo. Felly, er enghraifft, os caiff dŵr ymdrochi newydd ei ddynodi, byddai taliadau chwyddo yn cael eu rhoi i'r cwmni dŵr drwy filiau cwsmeriaid i ariannu'r gwaith y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni'r dynodiad ar gyfer y dŵr ymdrochi hwnnw.

    Dosbarthodd Ruth nodyn i'r grŵp cyn y cyfarfod er mwyn rhoi gwybod i bawb bod y broses hon wedi dechrau ac mai hi yw'r arweinydd ar gyfer CNC.

    Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru ei bod yn gweithio o fewn y tîm rheoli'r dalgylch ac yn edrych ar gynlluniau ar gyfer AMP8 nawr, gydag amserlen debyg i un Ruth wrth iddi edrych ar y PR24.

45. Soniodd Zoe yr hoffai drafod Cyfathrebu yn ystod y cyfarfod nesaf a syniadau am Gylchlythyr nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

***PG 09 Tachwedd: Bronwen Martin, CNC i ychwanegu cyfathrebu a'r Cylchlythyr Is-grŵp at agenda cyfarfod mis Rhagfyr.***

46. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau eraill.

## Diwedd y cyfarfod